

At: Aelodau'r Pwyllgor Archwilio
Cymunedau

Dyddiad: 12 Gorffennaf 2017

Rhif Union: 01824 712554

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR ARCHWILIO CYMUNEDAU, DYDD IAU, 20 GORFFENAF 2017** am **9.30 am** yn **YSTAFELL BWLLGOR 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN.**

Yn gywir iawn

G Williams

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

AGENDA

RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL AR GYFER Y RHAN HON O'R CYFARFOD

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fater a nodwyd fel un i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 PENODI IS-GADEIRYDD (Tudalennau 7 - 8)

5 COFNODION (Tudalennau 9 - 14)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Cymunedau a gynhaliwyd ar 15 Mehefin 2017 (copi wedi'i atodi).

9.35 a.m. – 9.45 a.m.

6 DIWEDDARIAD AM REOLI MEYSYDD PARCIO (Tudalennau 15 - 34)

Ystyried adroddiad (copi wedi'i atodi) yn darparu diweddariad ar ddatblygiad y Cynllun Rheoli Asedau Meysydd Parcio a'r argymhellion eraill yn yr adroddiad meysydd parcio a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau ym mis Hydref 2016.

9.45 a.m. – 10.20 a.m.

7 YSTYRIED PARCIO AM DDIM I DDEILIAID BATHODYN ANABLEDD
(Tudalennau 35 - 48)

Ystyried adroddiad (copi wedi'i atodi) ar p'un a ddylai deiliaid Bathodynnau Parcio Anabledd (Bathodynnau Glas) gael parcio am ddim ym meysydd parcio Talu ac Arddangos y Cyngor.

10.20 a.m. – 10.50 a.m.

~~~~~ **EGWYL (10.50 a.m. – 11.00 a.m.)** ~~~~~

**8 ADOLYGU A DIWEDDARU PROSIECT RHEOLEIDDIO PARCIAU CARAFANAU GWYLIAU** (Tudalennau 49 - 66)

Ystyried adroddiad (copi wedi'i atodi) ynglŷn â rheoleiddio parhaus parciau carafanau gwyliau yn y sir a sut mae'r cyngor yn monitro a gorfodi achosion posibl o dorri rheolau.

**11.00 a.m. – 11.35 a.m.**

**9 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO** (Tudalennau 67 - 82)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynnydd Archwilio (copi wedi'i atodi) yn gofyn am adolygiad o raglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor a rhoi'r diweddaraf i'r aelodau ar faterion perthnasol.

**11.35 a.m. – 12.00 p.m.**

**10 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR**

Derbyn unrhyw ddiweddariadau gan gynrychiolwyr y Pwyllgor ar Fyrddau a Grwpiau amrywiol y Cyngor.

**12.00 p.m. – 12.10 p.m.**

## **AELODAETH**

### **Y Cynghorwyr**

Y Cynghorydd Huw Williams  
(Cadeirydd)

Brian Blakeley  
Rachel Flynn  
Tina Jones  
Arwel Roberts  
Anton Sampson

Glenn Swingler  
Andrew Thomas  
Graham Timms  
Cheryl Williams  
David Williams

### **COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth  
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd  
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,  
(enw)

\*Aelod /Aelod cyfetholedig o  
(\*dileuer un)

**Cyngor Sir Ddinbych**

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant **\*personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-  
(\*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(Gweler y nodyn isod)\*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

(vi) Rôl: **Aelod Pwyllgor Archwilio/Cadeirydd**  
Cyflog: **Band 3 (Cadeirydd yn unig)**

*Sylwch: Mae'r eitemau sydd wedi'u hamlygu'n benodol i rôl y Cadeirydd*

## 1. PRIF GYFRIFOLDEBAU

- I'r Cyngor Llawn

## 2. PWRPAS Y RÔL

- Darparu arweinyddiaeth a chyfeiriad.
- Cymryd rhan yn llawn yng ngweithgareddau'r Pwyllgor Archwilio, datblygu a chyflwyno ei raglen waith ac yn unrhyw grwpiau gorchwyl a gorffen cysylltiedig.
- Cynorthwyo wrth ddatblygu a monitro effaith polisi'r Cyngor.
- Gwneud y gweithredwr yn gyfrifol, monitro perfformiad a chyflwyno gwasanaethau a herio penderfyniadau trwy'r trefniadau galw i mewn lle bo hynny'n briodol.
- Datblygu blaenraglen waith y pwyllgor.
- Adrodd ar gynnydd yn erbyn y rhaglen waith i'r Cyngor ac i bobl eraill fel sy'n briodol.
- Rheoli cyfarfodydd yn hyderus ac yn effeithiol i hwyluso cynhwysiant, cyfranogiad a gwneud penderfyniadau clir gan sicrhau bod amcanion y cyfarfod yn cael eu diwallu, ac y glynir wrth y cod ymddygiad, rheolau sefydlog a gofynion sefydliadol eraill.
- Gweithredu fel canolbwynt cysylltu rhwng y cyngor, y gymuned a chyrrff allanol mewn perthynas â'r swyddogaeth archwilio.
- Annog cyfraniadau effeithiol gan holl aelodau'r pwyllgor yn y pwyllgor a'r grwpiau gorchwyl a gorffen.
- Aseu perfformiadau unigol a chyfunol yn y pwyllgor a chysylltu â'r Arweinydd Grŵp perthnasol i symud cyfleoedd hyfforddi a datblygu yn eu blaenau.
- Diwallu cyfrifoldebau rôl yr aelod etholedig.

## 3. GWERTHOEDD a DISGWYLIADAU

- Ymroi i werthoedd Cyngor Sir Ddinbych a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus:
  - Balchder
  - Hygrededd
  - Parch
  - Undod
  - Mynychu pob cyfarfod perthnasol.
  - Cynnal materion yn electronig, h.y. cyfarfodydd a chyfathrebu, lle bo'n bosibl yn y Cyngor.
  - Mynychu hyfforddiant gorfodol fel y dynodwyd yn y cod ymddygiad a'r cyfansoddiad.

- Cymryd rhan mewn adolygiad datblygu blynyddol i wella'n barhaus perfformiad yr aelod a'r Cyngor.
- Esbonio a chyfrif am berfformiad personol fel Cynghorydd Sir yn rheolaidd, yn enwedig trwy gyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar wefan y Cyngor.



## PWYLLGOR ARCHWILIO CYMUNEDAU

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Cymunedau a gynhaliwyd yn Ystafell Gynhadledd 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, ddydd Iau, 15 Mehefin 2017 am 11.15 am.

### YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Brian Blakeley, Rachel Flynn, Tina Jones, Glenn Swingler, Andrew Thomas, Graham Timms a/ac Mark Young

Aelodau Cyfetholedig – roedd Kathleen Jones a Gareth Williams yn bresennol ar gyfer eitem fusnes 6

Arsylwyr - Y Cynghorwyr Meirick Lloyd Davies, Huw Jones, Richard Mainon, Melvyn Mile, Julian Thompson-Hill ac Emrys Wynne

Roedd yr Aelod Cabinet Arweiniol - Y Cynghorydd Huw Hilditch- Roberts yn bresennol ar gais y Pwyllgor.

### HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol (RM), Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd (GW), Pennaeth Addysg (KIE), Rheolwr Cynllunio Addysg ac Adnoddau (IL), Prif Reolwr Cymorth Addysg (GD), Cydlynnydd Archwilio (RE) a Gweinyddwr Pwyllgorau (SJ).

### PWYNT O SYLW

Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd (Swyddog Monitro'r Cyngor hefyd) y ddeddfwriaeth a oedd yn pennu'r trefniadau cadeirio ar gyfer pwyllgorau archwilio awdurdodau lleol. Oherwydd bod y Grŵp Llafur eisoes wedi cyhoeddi na fyddent yn cymryd swyddi ar y Cabinet a'u bod am fod mewn 'Gwrthblaid', roedd hawl awtomatig gan y Grŵp i gadeirio un o'r pwyllgorau archwilio, roeddent wedi dewis cadeirio'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau. Roedd cadarnhad yn dal i gael ei aros ar a fyddai'r Grŵp Plaid Cymru yn cymryd eu seddi ar y Cabinet, oherwydd hyn roedd yr wrthblaid yn dal yn aneglur ar ba grwpiau Cabinet fyddai â hawl i benodi cadeiryddion pwyllgorau archwilio. Felly, dywedodd efallai byddai'r Pwyllgor am benodi cadeirydd ar gyfer y cyfarfod yn absenoldeb penodiad swyddogol. Gwnaeth aelodau'r pwyllgor enwebu ac eilio'r Cynghorydd Mark Young i gadeirio'r cyfarfod. Gwnaeth y Pwyllgor:

**Benderfynu:** penodi'r Cynghorydd Mark Young i gadeirio'r cyfarfod.

### 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Cheryl Williams

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd Huw Hilditch- Roberts a'r Cynghorydd Huw Jones gysylltiad personol ag eitem 6 ar y rhaglen- Polisi Cludiant i Ddysgwyr Sir Ddinbych oherwydd eu bod yn llywodraethwyr ysgol.

## 3 PENODI IS-GADEIRYDD

Gohiriwyd penodi Is-gadeirydd tan cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Cymunedau ar 20 Gorffennaf 2017.

## 4 MATERION BRYN FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Nid oedd unrhyw faterion bryn.

## 5 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 23 Mawrth 2017. Nid oedd unrhyw fater yn codi ohonynt.

***Penderfynwyd:*** *Y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mawrth 2017 fel cofnod cywir.*

## 6 POLISI CLUDIANT I DDYSGWYR SIR DDINBYCH

Cyflwynodd Aelod Arweiniol Plant a Phobl Ifanc yr adroddiad (a ddsbarthwyd eisoes) a oedd yn rhoi'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad cyhoeddus diweddar ar y polisi newydd arfaethedig i'r aelodau. Yn ei gyflwyniad, dywedodd yr Aelod Arweiniol wrth yr aelodau am gefndir yr adolygiad o'r polisi presennol a datblygiad y polisi newydd, ei daith drwy bwyllgorau archwilio yn ystod tymor y Cyngor blaenorol, a'r penderfyniad i newid ei enw o'r 'Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol' i'r 'Polisi Cludiant i Ddysgwyr' er mwyn adlewyrchu'rfaith ei fod yn cynnwys holl gludiant ysgol o 4 oed i ôl-16 oed.

Yn ystod y broses adolygu daeth i'r amlwg fod gan weithredu'r polisi oblygiadau ehangach o lawer na dim ond cludo disgyblion i'w hysgol addas agosaf. Ar gyfer dalgylchoedd ysgol penodol, roedd goblygiadau cymunedol, oherwydd gallai fod angen i blant a oedd wedi mynychu'r un ysgolion cynradd drwy eu haddysg cyfnod cynradd fynychu ysgolion uwchradd gwahanol pan fyddai rheolau'r 'polisi cludiant o'r cartref i'r ysgol' yn cael eu defnyddio. Gallai hyn effeithio ar les disgyblion unigol ar y cam pontio hanfodol o'u haddysg. Un ysgol a oedd wedi cael profiadau negyddol o ganlyniad i weithrediad llym y rheolau hyn oedd Ysgol Pant Pastynog, Prion, lle roedd ei disgyblion wedi trosglwyddo'n gyffredinol i Ysgol Glan Clwyd, Llanelwy, nes i'r polisi gael ei weithredu'n llym. Oherwydd y pellter o gartrefi disgyblion unigol i'r ysgol addas agosaf, penderfynwyd bod rhai disgyblion yn gymwys i gael cludiant am ddim i Ysgol Brynhyfryd, Rhuthun yn unig. O ganlyniad, roedd hyn wedi achosi pryder i rieni y byddai disgwyl i'w plant fynychu ysgolion uwchradd gwahanol i'w ffrindiau, neu eu brodyr a chworydd mewn rhai achosion hyd yn oed. Roedd yr anghysonder hwn yn amlygu'r angen i gydnabod pwysigrwydd perthynas ag ysgolion

bwydo yn y polisi newydd. Mater arall a ddaeth i'r amlwg yn ystod datblygiad y polisi newydd a'r ymgynghoriad arno, oedd diffyg hyblygrwydd yn y trefniadau 'clwstwr ysgolion' presennol i ganiatáu ysgolion i newid clystyrau os penderfynwyd nad oedd yr ysgol uwchradd roeddent yn bwydo i mewn iddi yn bodloni disgwyliadau'r disgyblion/rhieni bellach. Codwyd y mater gan rieni, llywodraethwyr ac ati yn Ysgol Bro Cinmeirch. Cynigiodd Swyddogion ddatblygu gweithdrefn i ysgolion a oedd am ddiwygio trefniadau clwstwr presennol ac adrodd yn ôl i'r pwyllgor archwilio maes o law.

Agwedd arall a oedd wedi'i chryfhau dan y polisi newydd arfaethedig oedd y broses o apelio yn erbyn gwrthod darparu cludiant am ddim i'r ysgol. Byddai hon yn broses dau gam bellach. Byddai'r cam cyntaf yn cynnwys swyddogion yn asesu'r apêl, yna byddai Panel Apeliadau yn cyfarfod a byddai croeso i rheini/gofalwyr fynychu i gyflwyno eu hachos.

Gan ymateb i gwestiynau aelodau, eglurodd yr Aelodau Arweiniol a oedd yn bresennol a'r swyddogion y meini prawf 2 a 3 milltir i fod yn gymwys i gael cludiant am ddim i'r ysgol i ysgolion cynradd ac uwchradd. Gwnaethant hefyd egluro'r term 'llwybr peryglus i'r ysgol' a'r broses a ddilynir i benderfynu ar ddiogelwch llwybrau i'r ysgol. Byddai llwybrau i'r ysgol bob amser yn cael eu hailasesu os oedd datblygiad newydd yn cael ei adeiladu ar hyd llwybr neu os oedd newidiadau i lif traffig yn digwydd.

Hefyd, dywedasant:

- roedd y polisi newydd arfaethedig yn ystyried dewis rhieni o ran y categori addysg roeddent am ei gael i'w plentyn e.e. cludiant i'r ysgol 'addas' agosaf, ar sail dewis iaith a/neu ffydd, gan gynnwys cludiant i ysgolion trawsffiniol os oedd yr ysgol addas agosaf mewn sir arall. Mae gan rieni hawl i fynegi dewis rhieni; fodd bynnag, mae'r polisi yn egluro pryd fyddai cludiant am ddim ar gael yn unol â gofynion Mesur Teithio Gan Ddysgwyr (Cymru) 2008.
- nid oedd cost y Polisi Cludiant i Ddysgwyr newydd yn hysbys eto, ni fyddai'n hysbys nes byddai'r contractau newydd cludiant i'r ysgol yn cael eu rhoi yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Fodd bynnag roedd disgwyliad y byddai'r gost yn cynyddu er mwyn bodloni'r goblygiadau statudol a roddwyd ar yr Awdurdod gan Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru). Pan fyddai'r costau hynny wedi'u hasesu'n llawn byddai'n bwysig bod cais cyllideb yn cael ei wneud yn unol â'r cyllid a oedd yn ofynnol i alluogi'r Cyngor i fodloni ei oblygiadau statudol.
- pan fyddai'r polisi wedi'i gymeradwyo, byddai angen rhagor o waith i archwilio a ellid rheoli llwybrau cludiant i'r ysgol yn fwy effeithiol er mwyn sicrhau gwerth am arian mwyaf posibl;
- roedd yr 'ysgol addas agosaf' yn cael ei hasesu o gyfeiriad cartref y disgybl, nid o'i ysgol gynradd;
- nid oedd y rhestr 'mannau casglu' wedi'i chynnwys yn y polisi ei hun oherwydd ei bod yn destun diweddiadau cyson. Fodd bynnag, byddai rhestr wedi'i diweddarau ar gael ar wefan y Cyngor;
- yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol, roedd y ffaith fod un cwmni gweithredu cludiant i'r ysgol wedi mynd i ddi-ddymiad wedi cynyddu pwysau ar y gyllideb cludiant i'r ysgol o tua £300K;

- Cydnabuwyd bod Ysgol Morgan Llwyd, Wrecsam yn ysgol addas i ddisgyblion a oedd yn trosglwyddo o ddarpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg yn ardal Llangollen;
- Roedd disgyblion a oedd yn byw yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn allweddol i sicrhau cynaliadwyedd Ysgol Dinas Brân yn Llangollen;
- Byddent yn cynnwys Ysgol Brynhyfryd yn y categori 'ysgol addas agosaf arall' i ddisgyblion o Ysgol Carrog ac Ysgol Caer Drewyn a oedd am gael mynediad i ysgol uwchradd Categori 1 neu 2;
- Pan fyddai'r polisi wedi'i gymeradwyo a'i weithredu, byddai'n bwysig monitro'n agos bod yr elfen ddewisol ynddo yn cael ei weithredu'n deg a chyson;
- Roedd y polisi yn cynnwys darpariaeth i ddisgyblion a nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (ADY) i'w galluogi i gael mynediad i wasanaethau addysg addas a pherthnasol i sicrhau eu bod yn datblygu i'w llawn botensial. Nawr bod Addysg a Gwasanaethau Plant dan yr un Pennaeth Gwasanaeth, roedd asesiad mwy cyfannol o anghenion pob plentyn/disgybl yn cael ei gynnal;
- Nid yw Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn darparu ar gyfer cludo disgyblion i glybiau brecwast neu glybiau ar ôl ysgol ac oddi yno. Felly mae'r polisi yn nodi sut mae'r Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau i ddarparu cludiant yn unol â'r ddeddfwriaeth hon. Mae'r Mesur hwn yn rhoi gofyniad ar awdurdodau lleol i ddarparu cludiant i addysg statudol yn unig, roedd clybiau brecwast a chlybiau ar ôl ysgol yn elfennau anstatudol;
- Er bod mwy na 13,000 o lythrau ymgynghori wedi'u darparu, dim ond 79 o ymatebion a ddaeth i law. Er hynny, roedd swyddogion yn fodlon gyda'r ymatebion a gafwyd, roedd y mwyafrif ohonynt yn gadarnhaol. Os oedd ymgynghoreion yn hynod anfodlon gyda'r polisi newydd arfaethedig, tybiwyd y byddent wedi mynegi eu hanfodlonrwydd drwy ymateb i'r ymgynghoriad;
- roedd yr Aelod Arweiniol Plant a Phobl Ifanc a swyddogion yn fodlon nawr bod y polisi arfaethedig yn cydymffurfio'n llawn â deddfwriaeth a'i fod yn diwallu anghenion disgyblion a oedd a hawl i gael cludiant am ddim i'r ysgol yn Sir Ddinbych;
- roedd swyddogion yn cysylltu'n rheolaidd â chydweithwyr mewn awdurdodau ffiniol o ran darparu cludiant i ddisgyblion i ysgolion Sir Ddinbych ac fel arall. Cafwyd trafodaethau ar argaeledd lleoedd cludiant dewisol i ddisgyblion Sir Ddinbych ar fysiau ysgol awdurdodau cyfagos hefyd, fodd bynnag nid oedd hyn bob amser yn golygu y gellid dod i gytundeb ar y ddwy ochr ;
- roedd nifer o ysgolion yn Sir Ddinbych yn gweithredu cynlluniau 'beicio i'r ysgol' a 'bws cerdded'. Roedd llwyddiant cynlluniau o'r fath yn dibynnu ar ysgolion yn ymgysylltu â hwy ac ymrwymo i'w rhedeg. Gallai hwn fod yn faes lle mae Grwpiau Ardal yr Aelodau Lleol y Cyngor am edrych arno ymhellach maes o law;

Wrth nodi bod yr Asesiad o Effaith ar Les yn nodi nad oedd y Cyngor yn cynnig ar hyn o bryd y byddai'n rhaid i ddarparwyr ddefnyddio cerbydau nad oeddent yn rhai diesel ar gyfer dibenion cludiant i'r ysgol, croesawodd aelodau'r Pwyllgor y datganiad y byddai'r potensial i ddefnyddio cerbydau a gaiff eu gweithredu gyda batri yn cael ei adolygu'n gyson. Dywedodd y Cynghorydd Huw Ll Jones ei fod wedi awgrymu y gallai disgyblion o Gorwen sy'n mynychu Ysgol Dinas Brân ddefnyddio'r trê'n o Gorwen i Langollen fel dull posibl o gludiant. Rhoddodd Aelodau ganmoliaeth i

swyddogion am y disgresiwn a ddefnyddiwyd o ran ceisiadau am gludiant i'r ysgol roeddent wedi bod yn rhan ohonynt ar ran etholwyr a'r modd sensitif roeddent wedi delio gyda'r unigolion dan sylw.

Dywedodd yr Aelod Arweiniol Plant a Phobl Ifanc wrth y Pwyllgor mai ei fwriad yn dilyn ei benodiad diweddar oedd ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yn Llywodraeth Cymru (LIC) ar nifer o faterion sy'n ymwneud ag addysg leol a chenedlaethol, yn eu plith roedd proses gategoreiddio ysgolion LIC a'r effaith andwyol anfwriadol roedd yn ei chael ar rai disgyblion a chymunedau yn y sir.

Wrth ganmol Polisi Teithio gan Ddysgwyr Sir Ddinbych i'r Pwyllgor, pwysleisiodd yr Aelod Arweiniol fod hon yn enghraifft lle roedd aelodau etholedig wedi gwrando ar bryderon rhieni, gofalwyr, athrawon, disgyblion a chymunedau a modelu'r polisi newydd gyda'r bwriad o fynd i'r afael â'r mwyafrif o'r pryderon hynny wrth sicrhau ei fod yn cydymffurfio gyda'r holl ddyletswyddau deddfwriaethol.

Ar ddiwedd y drafodaeth gwnaeth aelodau:

**Benderfynu:**

- (i) ***cadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 5);***
- (ii) ***bod Atodiad 1 o'r Polisi drafft yn cael ei ddiwygio i gynnwys Ysgol Brynhyfryd yn y golofn 'ysgol addas agosaf arall' i ddisgyblion sy'n trosglwyddo o Ysgol Carrog ac Ysgol Caer Drewyn;***
- (iii) ***bod swyddogion yn datblygu gweithdrefn i ysgolion, os oeddent yn dymuno symud o glwstwr penodol, lle gallent gymryd rhan mewn proses gyda'r Awdurdod Lleol i ystyried eu trefniadau, ac adrodd yn ôl am eu canfyddiadau i'r Pwyllgor maes o law; ac***
- (iv) ***yn amodol ar yr uchod, bod y Cabinet yn cymeradwyo'r polisi ar gyfer gweithredu o fis Medi 2018 a bod ei weithrediad yn cael ei fonitro.***

**7 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO**

Roedd copi o adroddiad gan y Cydlynnydd Archwilio (CA), a oedd yn gofyn i'r Pwyllgor adolygu a chytuno ar ei raglen gwaith i'r dyfodol ac a oedd yn rhoi diweddariad ar faterion perthnasol, wedi ei ddsbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Roedd copi o 'ffurflen gynnis Aelodau' wedi ei chynnwys yn Atodiad 2. Gofynnodd y Cydlynnydd Archwilio bod unrhyw gynigion yn cael eu cyflwyno iddi hi. Roedd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet wedi'i gynnwys fel Atodiad 3, roedd gwybodaeth a thabl yn dangos Grwpiau Herio Gwasanaeth wedi eu cynnwys fel Atodiad 4. Dywedodd y CA wrth aelodau, ar gyfer pob un o'r 9 grŵp Herio Gwasanaeth, gofynnir i gynrychiolydd o'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau i fod ar y grwpiau. Yn ychwanegol, roedd angen cynrychiolydd i fod ar y Grŵp Buddsoddi Strategol. Yn dilyn trafodaethau, penododd y Pwyllgor y canlynol:

|                                    |                         |
|------------------------------------|-------------------------|
| <b>Gwasanaeth:</b>                 | <b>Cymunedau</b>        |
| <b>Addysg a Gwasanaethau Plant</b> | Y Cynghorydd Tina Jones |

|                                                                                   |                                                                           |
|-----------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------|
| - Karen Evans                                                                     |                                                                           |
| <b>Gwasanaethau Cymorth Cymunedol</b><br>- Phil Gilroy                            | Y Cyngorydd Rachel Flynn                                                  |
| <b>Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd</b><br>- Gary Williams | Y Cyngorydd Anton Sampson                                                 |
| <b>Gwella Busnes a Moderneiddio</b><br>- Alan Smith                               | Y Cyngorydd Andrew Thomas                                                 |
| <b>Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata</b><br>- Liz Grieve                         | Y Cyngorydd Glenn Swinger                                                 |
| <b>Cyfleusterau, Asedau a Thai</b> - Jamie Groves                                 | Y Cyngorydd Graham Timms                                                  |
| <b>Cyllid</b> - Richard Weigh                                                     | i'w gadarnhau (Y Cyngorydd Arwel Roberts neu'r Cyngorydd Cheryl Williams) |
| <b>Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol</b><br>- Tony Ward                      | Y Cyngorydd Brian Blakeley                                                |
| <b>Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd</b><br>- Graham Boase                           | Y Cyngorydd Mark Young                                                    |

|                                 |                        |
|---------------------------------|------------------------|
| <b>Grŵp Buddsoddi Strategol</b> | Y Cyngorydd Mark Young |
|---------------------------------|------------------------|

Ystyriodd y Pwyllgor ei Raglen Gwaith i'r Dyfodol drafft ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol, Atodiad 1 ac ni wnaed diwygiadau.

***Penderfynwyd*** cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol fel a nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad a dirprwyo a chadarnhau'r cynrychiolwyr i wasanaethu ar y 9 Grŵp Gwasanaeth.

Daeth y cyfarfod i ben am 12:45 p.m.

|                                 |                                                                                                            |
|---------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Adroddiad i'r:</b>           | <b>Pwyllgor Archwilio Cymunedau</b>                                                                        |
| <b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>      | <b>20 Gorffennaf 2017</b>                                                                                  |
| <b>Aelod/Swyddog Arweiniol:</b> | <b>Aelod Arweiniol Priffyrdd, Cynllunio a Datblygu Cynaliadwy/ Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd</b> |
| <b>Awdur yr Adroddiad:</b>      | <b>Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch ar y Ffyrdd</b>                                                     |
| <b>Teitl:</b>                   | <b>Diweddariad ar y Gwaith o Reoli Meysydd Parcio</b>                                                      |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad Cynllun Rheoli Asedau Meysydd Parcio a'r argymhellion eraill a nodwyd yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau fis Hydref 2016 ar feysydd parcio.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Roedd y pwyllgor wedi gofyn am ddiweddariad ar yr argymhellion amrywiol a nodwyd yn adroddiad mis Hydref 2016 (gweler Atodiad A).

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn:

- 3.1 cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad D) fel rhan o'i ystyriaethau;
- 3.2 Ystyried cynnwys yr adroddiad, darparu sylwadau a chefnogi parhad y gwaith a wneir i ddatblygu Cynllun Rheoli Asedau Meysydd Parcio a'r mentrau eraill a restrir.

## 4. Manylion yr adroddiad Cyflwyniad

- 4.1 Roedd dau bwrpas i'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau fis Hydref 2016, sef adrodd ar effaith y cynnydd ym mhrisiau parcio a ddaeth i rym fis Ebrill 2016 a chynnig cyfres o argymhellion gyda'r nod o wella'r ffordd y caiff meysydd parcio eu rheoli. Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad ar yr argymhellion amrywiol a wnaethpwyd yn adroddiad mis Hydref 2016 ac a gefnogwyd gan y Pwyllgor Archwilio Cymunedau. Pan fo eitemau yn yr adroddiad canlynol yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am argymhellion bydd rhif Rhufeinig mewn cromfachau i nodi'r argymhelliad y mae'n cyfeirio ato.
- 4.2 Bydd gwella'r ffordd y rheolir meysydd parcio'r Cyngor yn sicrhau y bydd meysydd parcio yn cael eu cynnal a'u cadw'n well a bod buddsoddiadau yn cael eu blaenoriaethu'n briodol. Rydym ni hefyd yn cydnabod bod meysydd parcio yn aml iawn yn rhan o brofiadau cyntaf llawer o ymwelwyr o'n trefi, ac felly mewn sawl ffordd ein meysydd parcio yw pyrth ein trefi. Mae'n hanfodol felly bod ein meysydd parcio

yn hawdd i'w canfod, yn ddeniadol a glân, yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda, yn ddiogel ac yn darparu'r wybodaeth briodol.

#### Cynllun Rheoli Asedau Meysydd Parcio (Argymhelliad iv)

- 4.3 Mae Cynllun Rheoli Asedau Meysydd Parcio yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd er mwyn gwella effeithlonrwydd y dull a ddefnyddir i reoli meysydd parcio, yn arbennig o ran y ffordd maent yn cael eu cynnal a'u cadw a sut y blaenoriaethir buddsoddiadau. Mae cronfa ddata gyfrifiadurol yn cael ei chwblhau sy'n cynnwys manylion yr holl asedau yn ein meysydd parcio e.e. peiriannau talu ac arddangos, rhwystrau, cyrbau, gyliau draenio, bolardiau a biniau ac ati.
- 4.4 Disgwylir i'r gwaith trefsur sydd wedi ei gynnal yn ystod y misoedd diweddaf gael ei gwblhau gyda hyn. Yn ogystal â chreu rhestr o'n holl asedau, rydym ni wedi asesu cyflwr pob ased yn defnyddio system sgorio i helpu i benderfynu a oes angen newid unrhyw ased.
- 4.5 Bydd y gronfa ddata hefyd yn cynnwys llun o bob ased. Ceir enghraifft o gofnod ar y gronfa ddata yn Atodiad B.
- 4.6 Bydd y gronfa ddata hefyd yn cael ei defnyddio gan y tîm Strydwedd, sy'n cynnal archwiliadau rheolaidd o'n meysydd parcio i nodi materion cynnal a chadw. Mae'r archwiliadau rheoliad yma hefyd yn helpu i ddiweddarau'r gronfa ddata.
- 4.7 Un o ganlyniadau allweddol Cynllun Rheoli Asedau Meysydd Parcio fydd cynhyrchu Rhaglen Fuddsoddi 5 mlynedd. Rhagwelir y bydd y cynllun wedi ei gwblhau erbyn diwedd mis Awst 2017.
- 4.8 Er bod manylion llawn y Rhaglen Fuddsoddi heb eu datblygu'n iawn eto, mae'r rhestr ganlynol yn cynnwys eitemau a fydd yn rhaid eu cynnwys yn y Cynllun Buddsoddi.

|      | <u>Disgrifiad</u>                                                | <u>Amcangyfrif o'r gost</u> |
|------|------------------------------------------------------------------|-----------------------------|
| i)   | Ailwampio maes parcio Pentref y Plant, y Rhyl                    | £1.5 miliwn                 |
| ii)  | Ail roi haenen wrth-ddŵr ar ddeciau maes parcio aml-lawr Dinbych | £200 mil                    |
| iii) | Arwyddion gwybodaeth newydd ymhob maes parcio                    | £300 mil                    |
| iv)  | Gosod peiriannau talu ac arddangos newydd                        | £300 mil                    |
| v)   | Rhwystrau uchder newydd                                          | £200 mil                    |

- 4.9 Unwaith y bydd y Cynllun Buddsoddi wedi ei gynhyrchu, bydd yn rhaid nodi'r strategaeth ariannu fwyaf priodol i weithredu'r cynllun. Oherwydd swm y buddsoddiad cychwynol sydd ei angen, mae hyn yn debygol o gynnwys rhywfaint o fenthyca darbodus.



#### Mynychu Cyfarfodydd Grŵp Ardal Aelodau (Argymhelliad iii)

- 4.10 Mae'r Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch ar y Ffyrdd yn ymweld â phob Grŵp Ardal Aelodau. Diben mynychu'r cyfarfodydd hyn yw derbyn barn aelodau lleol am y pethau y dylid buddsoddi ynddynt yn y meysydd parcio a derbyn eu barn am y ffyrdd y rheolir meysydd parcio yn gyffredinol.

#### Peiriannau Talu ac Arddangos Modern (Argymhelliad v)

- 4.11 Yn hytrach nag aros tan ar ôl cwblhau'r Cynllunio Rheoli Asedau Meysydd Parcio cyn buddsoddi mewn unrhyw beth, mae 12 peiriant talu ac arddangos newydd wedi eu harchebu oherwydd bod angen newid rhai o'r hen rai. Mae'r peiriannau newydd yn cynnig mwy na'r hen beiriannau. Er enghraifft maent yn cynnig mwy o ddewisiadau talu, megis gyda cherdyn, ac mae modd cysylltu â nhw yn ddiwifr – sy'n golygu y gallwch ddefnyddio unrhyw gyfrifiadur gyda chysylltiad rhyngwyrdd i wirio ei statws. Bydd gan ddau o'r peiriannau hyn sgriniau cyffwrdd lliw sydd hefyd yn gallu argraffu talebau, e.e. gostyngiadau mewn siopau lleol a chaffis. Bydd y peiriannau newydd hyn yn cael eu gosod yn yr ychydig wythnosau nesaf. Ceir rhestr ohonynt yn Atodiad C.

#### Tocynnau Hyblyg a Thocynnau Cyfnodau Byr ar gyfer Twristiaid (Argymhellion vi, vii a viii)

- 4.12 Mae Grŵp Tasg a Gorffen Meysydd Parcio wedi ei sefydlu sy'n cynnwys swyddogion Gwasanaethau Parcio, Cefn Gwlad a Thwristiaeth. Diben y grŵp yw archwilio dewisiadau i wella profiadau ymwelwyr wrth barcio, fel ystyried y dewisiadau ar gyfer tocynnau hyblyg y mae modd eu trosglwyddo o un maes parcio Cyngor Sir Ddinbych i'r llall. Hefyd dan ystyriaeth mae tocynnau cyfnodau byr ar gyfer ymwelwyr ac i'w prynu gan weithredwyr gwystai a llefydd aros eraill. Mae'r grŵp yn ymchwilio'n drylwyr i fanylion ymarferol y mentrau hyn. Mae'r grŵp hefyd yn adolygu arwyddion twristaidd mewn meysydd parcio.

#### Gwella'r System Trwyddedau Parcio (Argymhellion vii a viii)

- 4.13 Mae gwaith cychwynnol wedi ei wneud gyda swyddogion TGCh a Gwasanaethau i Gwsmeriaid i archwilio'r posibilrwydd o greu system trwyddedau parcio electronig. Mae'r system bapur bresennol yn araf ac yn aneffeithlon oherwydd bod y data yn cael ei drin fwy nag unwaith. Y cynnig yw cael system electronig lle mae cwsmeriaid yn prynu tocynnau ar-lein neu mewn un o siopau un alwad Sir Ddinbych. Ar ôl talu, bydd rhif cofrestru'r cerbyd yn cael ei gadw ar gronfa ddata ddiogel. Wrth ymgymryd â gwaith gorfodi mewn meysydd parcio y bwriad yw galluogi Swyddogion Gorfodi Sifil gael mynediad i'r gronfa ddata drwyddedau drwy eu ffonau clyfar, a fydd yn rhoi gwybod iddynt a oes gan y cerbyd drwydded ddilys.

#### Hyrwyddo Trwyddedau Parcio yn Well (Argymhelliad ix)

- 4.14 Mae tîm cyfathrebu a gwe'r Cyngor wedi bod yn cynnal trafodaethau i weld a oes modd hyrwyddo trwyddedau parcio meysydd parcio arhosiad hir y Cyngor yn well. Ceir achosion o hyd lle nad yw'r cyhoedd yn ymwybodol bod trwyddedau o'r fath ar gael i'w prynu.

4.15 Bydd talu fesul tipyn yn cael ei drafod ymhellach ar ôl i'r system electronig gael ei rhoi ar waith gan nad yw proses weinyddol y system bresennol yn caniatáu i berson gerdded allan o siop un alwad gyda thrwydded heb dalu'n llawn amdani.

#### **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Nid yw'r Blaenoriaethau Corfforaethol newydd wedi eu cytuno arnynt eto.

#### **6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Bydd cost y mesurau a nodir yn y Cynllun Rheoli Asedau a chost y mentrau parcio eraill yn cael eu cwrdd yn defnyddio'r gyllideb ar gyfer meysydd parcio, yn ogystal â Benthycia Darbodus gan fod y Rhaglen Fuddsoddi yn debygol o fod angen swm sylweddol o fuddsoddiad cyfalaf yn ystod y ddwy flynedd gyntaf.

#### **7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**

Mae'r Asesiad Lles yn nodi y bydd rheoli asedau ein meysydd parcio yn well o fudd i'r economi lleol, yn mynd i leihau ein defnydd o ynni yn ogystal â gwella diogelwch y cyhoedd yn ein meysydd parcio. Gweler Atodiad D.

#### **8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

Mae'r adroddiad hwn yn ddiweddariad yn dilyn adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau fis Hydref 2016. Mae ymgynghoriad yn cael ei gynnal gyda'r chwe Grŵp Ardal Aelodau i dderbyn eu barn ar flaenoriaethau'r Cynllun Buddsoddi mewn Meysydd Parcio.

#### **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae'n bwysig deall y gwaith sydd ei angen i gynnal neu ddatblygu meysydd parcio'r Cyngor. Bydd cynhyrchu Cynllun Rheoli Asedau yn cynorthwyo gyda hyn, ac yn amlygu natur ac amcangyfrif o gost y gwaith angenrheidiol. Rhagwelir y bydd y gwaith angenrheidiol yn cael ei ariannu o fewn yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer meysydd parcio. Bydd pob prosiect yn destun prosesau cymeradwyo mewnol y Cyngor, gan gynnwys adroddiad i'r Grŵp Buddsoddi Strategol.

#### **10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Gall methu cynhyrchu Cynllun Rheoli Asedau Meysydd Parcio arwain at fethu blaenoriaethu buddsoddiadau angenrheidiol i feysydd parcio. Gall hyn arwain at gynydd mewn costau oherwydd bod ymyrraeth gynnar yn aml iawn yn rhatach na gadael i broblem waethygu heb fynd i'r afael â hi.

#### **11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae Adran 7.4.2 o Gyfansoddiad y Cyngor yn amlinellu pwerau'r Pwyllgor Archwilio o ran astudio effaith penderfyniadau a defnyddio polisiau.

#### **Swyddog Cyswllt:**

Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch ar y Ffyrdd

Rhif ffôn: 01824 706959

## APPENDIX A – OCTOBER 2016 REPORT

|                               |                                                              |
|-------------------------------|--------------------------------------------------------------|
| <b>Report To:</b>             | Communities Scrutiny Committee                               |
| <b>Date of Meeting:</b>       | 27 <sup>th</sup> October 2016                                |
| <b>Lead Member / Officer:</b> | Cllr David Smith / Graham Boase                              |
| <b>Report Author:</b>         | Mike Jones                                                   |
| <b>Title:</b>                 | <b>County-wide impact of the increase in parking charges</b> |

### 1. What is the report about?

To examine the impact of the parking charge increase implemented on 1<sup>st</sup> April 2016 on Denbighshire town centres. The report doesn't consider the potential wider use of staff car parks belonging to Council office buildings as they're managed by Property.

### 2. What is the reason for making this report?

A request was made by the SCVCG for a report to examine the impact that the increase in parking charges has had on town centres in terms of numbers of visitors.

### 3. What are the Recommendations?

That the Committee:

- i) Considers and comments on the content of the report.
- ii) Considers and comments on the proposed actions detailed within Appendix A.
- iii) Considers another report in a year's time to review progress.

### 4. Report details

#### Background

- 4.1 The County-wide old and new parking tariffs are provided in Appendix B. These reflect the first increase in charges since April 2009 (i.e. 7 years)
- 4.2 The charge for parking permits has remained unaltered, for example, an annual permit for use in our long stay car parks still costs only £104.34.
- 4.3 The long standing initiative of allowing each Town Council to nominate 5 free parking days a year in their town has been retained, as has the initiative of implementing daily free parking after 3pm in town centres for the 4 weeks leading up to Christmas.
- 4.4 The decision to increase the parking charges this year was taken by the Head of Highways and Environment following the production in March 2015 of the Denbighshire Town Centre Parking & Traffic Management Study and subsequent discussions at Communities Scrutiny in July 2015 and at the F&F budget meeting with Members in October 2015.
- 4.5 The reason for the increase was to (i) increase income in order to address a budget deficit (the budget income for car parks had not been met for a number of years, which created a significant year on year budget pressure), (ii) to provide sufficient revenue to allow investment in car park infrastructure such as new payment machines, and (iii) to better manage town centre parking by increasing the turnover of spaces in short stay car parks to increase the availability of spaces for shoppers.

## APPENDIX A – OCTOBER 2016 REPORT

- 4.6 In coming to the decision that fees should be increased, Members confirmed that a County-wide consistent level of charging across public car parks should be retained.
- 4.7 In practice, however, there are local circumstances that result in different charges applying “on the ground” (e.g. potential for Town Councils or previously MAGs to “subsidise” lower charges in certain car parks which has happened previously in Ruthin, and is currently the case in Prestatyn and Denbigh. In the case of Llangollen, a higher charge was set in Market Street car park to cover the cost of a staff member working as a Coach Parking Attendant within that car park for several hours a week).

### Public reaction to price increase

- 4.8 Approximately 35 complaints/concerns from the public have been received since the new charges were introduced. Of these, the vast majority were specific to Denbigh with equal proportions of the remainder specific to Rhyl, Prestatyn and Ruthin.
- 4.9 The complaints/concerns are mostly linked to the perceived detrimental impact the fee increase has had on certain town centres. As the vast majority have come from Denbigh it seems that the fee increase has had a disproportionate impact in Denbigh.
- 4.10 Officers met Denbigh MAG and Denbigh Town Council to discuss the issues around the increased charges. This led to some initiatives being introduced by Officers under delegated powers, such as, introducing a some free spaces for the first hour (2 hours for disabled spaces) in one car park, re-designation of a Short Stay Car Park to Long Stay, and the introduction of a Town Council subsidy to vary charges in Vale Street Car Park for the rest of this financial year and possibly beyond.

### Monitoring of impact from a car park/revenue perspective;

- 4.11 Parking income is recorded on a monthly basis for each car park in the County, which has enabled a comparison of income for April to August this year, with the same period last year. The comparison figures are attached as Appendix C.
- 4.12 Across all car parks, April 2016 saw a small reduction in total income compared with April 2015. However, the 4 months since have shown significant increases in income.
- 4.13 Income figures alone do not convey car park usage, so further analysis has been undertaken to compare numbers of tickets sold. Due to the limitations of the old ticket machines, this has been a labour intensive process. Future investment in modern pay and display machines will allow this kind of information to be obtained easily.

### Comparison of ticket sales

- 4.14 Appendix D shows a comparison of ticket sales by car park, by town and by tariff.
- 4.15 Ticket sale data for April this year showed a 31% drop in total ticket sales compared with April last year. This can be explained by:
- i) Initial adverse reaction to the price increase
  - ii) Unseasonably cold and wet weather in April this year
  - iii) The Easter Bank Holiday weekend falling in March 2016 but in April in 2015.

## APPENDIX A – OCTOBER 2016 REPORT

- 4.16 Ticket sales from 1<sup>st</sup> May to 31<sup>st</sup> August fell by 9% when compared with last year.
- 4.17 Some fluctuation in ticket sales isn't unusual from year to year, even without a price change, (for example, ticket sales in June 2014 were 7.6% less than June 2015.)
- 4.18 Parking Permit sales have increased by 18% this financial year to date, compared with the same period last year. As permit prices didn't increase, it's evident that more residents have purchased permits this year, which will inevitably reduce ticket sales.
- 4.19 Owing to the significant difference between April and the other months, and the potential skew in the data that this creates, Appendix D contains two tables. Table 1 shows the data with April included, and Table 2 shows the data with April excluded.
- 4.20 Comparing ticket sales for the period from 1<sup>st</sup> May to 31<sup>st</sup> August 2016 with the same period in 2015 shows that sales of 30 min tickets are mostly unchanged, sales of 1 hour tickets have increased by 7% and all day ticket sales have increased by 124%.
- 4.21 The sale of 3 hour tickets (formerly 4 hour tickets) has reduced by nearly 32%. This significant reduction is undoubtedly a result of the increased charges and the reduction in the duration of that tariff band from 4 hours to 3 hours. In the context of the other data, it is likely that the following practices are occurring:
- i) Based on previous anecdotal evidence and a number of the complaints that we've received since April 2016, some people who work in our town centres were previously purchasing two 4 hour tickets; one in the morning and one at lunchtime to park all day in either short stay or long stay car parks for a total cost of £2.00 (£1.00 per 4 hour ticket), but this is no longer feasible now that we've increased the cost and reduced the duration of this tariff band from 4 hours to 3 hours. Since this tariff change, these individuals are likely to have either bought an annual parking permit instead; found an alternative free parking location; or started buying all day tickets instead.
  - ii) It is also likely that some people are buying a 1 hour ticket instead of a 3 hour ticket and are carrying out their business more quickly, where previously they may have bought a 4 hour ticket and stayed longer in the town centre.
- 4.22 The picture between different Towns in the County is even more complex. Llangollen and Ruthin have both seen no real significant change in ticket sales compared with last year, yet ticket sales in Rhyl, Denbigh, Prestatyn and Rhuddlan have dropped by 24%, 18%, 10% and 18% respectively compared with last year.
- 4.23 It is noticeable that Rhyl has experienced the biggest drop in ticket sales, yet this has generated comparatively few complaints compared with elsewhere in the County. One possible explanation for this is that Rhyl has a greater supply of alternative parking locations including private car parks (e.g. White Rose Centre and Morrison's Supermarket); a significant number of free on-street parking bays subject to a time limit; and free unrestricted on-street parking slightly further out from the town centre.
- Business Survey regarding impact of increase in charges.

## APPENDIX A – OCTOBER 2016 REPORT

- 4.24 The Council's Economic & Business Development Team carried out a brief "soundbite" survey of business across the County in June in order to receive some focussed feedback on the increase in the charges. Please see Appendix E.

### Conclusion

- 4.25 Based on our analyses of income received and overall ticket sales, the impact of the price increase across the County as a whole has generally been less than some had feared, notwithstanding the initial adverse reaction that occurred in April immediately following the fee increase. This accords with the findings of previous research to examine the link between parking and town centre retail, including the WG study, "Assessing the Impact of Car Parking Charges on Town Centre Footfall".

- 4.26 However, it's considered that there's still significant scope to improve our parking facilities and systems; Appendix A lists potential interventions to achieve that aim.

### **5. How does the decision contribute to the Corporate Priorities?**

Developing the local economy - Better management of town centre parking to increase the turnover and availability of spaces in short stay car parks especially.

### **6. What will it cost and how will it affect other services?**

It cost approximately £11,000 to implement the price increase. The bulk of this figure was the cost of reprogramming the pay and display machines. Total pay and display machine income from 1<sup>st</sup> April to 31<sup>st</sup> August 2016 was £193,225 higher than the same period in 2015. (This includes beach car parks and pay and display car parks).

### **7. What are the main conclusions of the Well-being Impact Assessment? The completed Well-being Impact Assessment report can be downloaded from the [website](#) and should be attached as an appendix to the report.**

2 Stars. Actual score 12 out of 24. Please refer to Appendix F.

### **8. What consultations have been carried out with Scrutiny and others?**

A paper was submitted to SCVCG in July 2016 which led to this report being requested.

### **9. Chief Finance Officer Statement**

Car parking has consistently overspent over the last couple of years by around £150k. During this time the service has also been unable to provide the necessary investment in the infrastructure of the car parks, resulting in a backlog of works. The additional income resulting from the changes to parking charges will be used to firstly address the historic income shortfall to cover the running costs. Any further additional income will be used to invest in car parks and the wider highways infrastructure.

### **10. What risks are there and is there anything we can do to reduce them?**

Not recognising that our car parks are gateways to our towns, whilst also balancing the need to ensure income can fund improvements and day to day maintenance.

### **11. Power to make the Decision**

Road Traffic Regulation Act 1984

Section 7.4.2 of the Council's Constitution outlines Scrutiny's powers with respect to examining the impact of decisions and the application of policies.

Exit Desktop Map Options Functions Previous Next Create Amend Confirm Cancel

Summary | Details | Attributes | Updates | Links | Contacts | Co-ordinates | Activities | Survey | Index Groups | Objects

Address GREEN LANE CAR PARK CORWEN Section

Location GREN LANE CAR PRK


Unit Type SURFACING CP Unit No. 11 Item Status LIVE XSP Chainage Display Address

Start 0.00 End 0.00 Start Width 0.00 End Width 0.00 Grid Ref. 308016.73 343522.37

Exp.Code Userfield1 Userfield2

Description

| Attribute Title | Attribute Value                       |
|-----------------|---------------------------------------|
| Surfacing Type  | Traffic Island                        |
| Material Type   | Bituminous                            |
| Slab Size       |                                       |
| Area            | 15.66 Square Metres                   |
| Condition       | Acceptable                            |
| Photograph      | DCCL_Q\2017_05\000120734_ATT_0006.jpg |



Mae tudalen hwn yn fwiadol wag



Exit Desktop Map Options Functions Previous Next Create Amend Confirm Cancel

Summary | Details | Attributes | Updates | Links | Contacts | Co-ordinates | Activities | Survey | Index Groups | Objects

Address GREEN LANE CAR PARK CORWEN Section

Location GREEN LANE CAR PARK


Unit Type KERB Unit No. 4 Item Status LIVE XSP Chainage Display Address

Start 0.00 End 0.00 Grid Ref. 307940.18 343536.99

Exp.Code Userfield1 Userfield2

Description

| Attribute Title             | Attribute Value                       |
|-----------------------------|---------------------------------------|
| Type (KB)                   | Normal                                |
| Kerb Material               | Precast Concrete                      |
| Drainage Type               |                                       |
| Length (KB)                 | 7.35 Metres                           |
| Condition                   | Acceptable                            |
| Photograph                  | DCCL_Q\2017_05\000120695_ATT_0013.jpg |
| Width (KB)                  |                                       |
| S184 Consent Granted        | <input type="checkbox"/>              |
| Streetworks Ref No SW/5300  |                                       |
| Developmnt Contrl Ref No HD |                                       |
| LA Reference                |                                       |



Mae tudalen hwn yn fwiadol wag

**APPENDIX C - LIST OF 12 NEW PAY AND DISPLAY MACHINES TOGETHER WITH LOCATIONS**

| Ref. No. | Town       | Physical Location  | Current M/C Mains or Solar | New M/C Mains or Solar | New or existing location | Current M/C ID | New Parkfolio ID (Numeric only) | Machine Name (for Parkfolio) | Coin only, Coin & Card, Card only? | Tariff ID (ref to software spec sheet) | Notes            |
|----------|------------|--------------------|----------------------------|------------------------|--------------------------|----------------|---------------------------------|------------------------------|------------------------------------|----------------------------------------|------------------|
| 1        | RHYL       | West Kinmel Street | Solar                      | Solar                  | Extg                     | 6              | 6                               | West Kinmel 1                | Coin & Card                        | Long Stay                              | Strada Evolution |
| 2        | RHYL       | West Kinmel Street | Solar                      | Solar                  | Extg                     | 7              | 7                               | West Kinmel 2                | Coin & Card                        | Long Stay                              | Strada Evolution |
| 3        | RHYL       | Pavilion Theatre   | N/A                        | Solar                  | New                      | N/A            | tbc                             | Rhyl Pavilion 1              | Coin & Card                        | Long Stay (Beach)                      | Strada Evolution |
| 4        | RHYL       | Pavilion Theatre   | N/A                        | Solar                  | New                      | N/A            | tbc                             | Rhyl Pavilion 2              | Coin & Card                        | Long Stay (Beach)                      | Strada Evolution |
